PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872
Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**E-lawlyfr 1**
**SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL**
Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

## Adnodd 1

# *Cyfranogiad yng Nghymru*

# Canllaw i Athrawon

International Politics
Gwleidyddiaeth Ryngwladol
cbac wjec

# CANLLAW I ATHRAWON

Mae'r adnodd hwn ar gyfranogiad yng Nghymru yn un o wyth sy'n rhan o ***E-lawlyfr 1: Syniadau Hanfodol i Ddeall Systemau Gwleidyddol***. Mae pob adnodd wedi'i deilwra i gynorthwyo'r sawl sy'n dysgu neu'n astudio Uned 2 ar fanyleb y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Byw a Chyfranogi mewn Democratiaeth'. Nid yw'r adnodd yn cwmpasu'r holl faterion yn y fanyleb ac amlinellir isod wybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar y fanyleb sy'n cael sylw yn yr adnodd hwn.

| TEITL YR ADNODD | MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR ADNODD |
|---|---|
| **Adnodd 1:**<br>**Cyfranogiad yng Nghymru** | **2.2.1: Pwysigrwydd cyfranogiad mewn democratiaeth ac effeithiau diffyg cyfranogiad**<br>**– Democratiaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol.**<br>**– Y nifer sy'n pleidleisio; apathi; ymatal; plwraliaeth; elitaeth; dilysrwydd (legitimacy).**<br>**– Esboniadau o ran pam mae rhai pobl/grwpiau mewn cymdeithas yn cyfranogi mwy nag eraill; dadleuon ynghylch effeithiau hyn** |

Mae'r adnodd felly yn cwmpasu'r prif elfennau a amlinellir yn rhan 2.2.1 o'r uned. O'r herwydd, mae'r wybodaeth graidd yn rhoi sylw i ddiffinio nifer o'r prif dermau a amlinellir yn y fanyleb, ac yn canolbwyntio mewn mwy o fanylder ar y drafodaeth a'r ymchwil o ran pwy sy'n pleidleisio a'r dylanwadau ar hyn. Yr elfen benodol Gymreig yn y wybodaeth graidd yw'r sylw a roddir i'r cwestiwn o ddilysrwydd y Cynulliad. Mae'r teitl o ran 'Cyfranogi yng Nghymru' i'w weld yn gliriach wrth ystyried y deunydd yn yr ymarferion yn y Llawlyfr Gwaith ble mae cryn bwyslais ar enghreifftiau o Gymru wrth geisio perthnasu'r pynciau dan sylw i ddata perthnasol fel y gall y disgyblion fynd ati i ystyried y tueddiadau mewn mwy o fanylder.

Bwriad y canllaw i athrawon yw tynnu sylw at rai materion allweddol yn ymwneud â'r pwnc ac i gynnig amlinelliad o'r ymarferion sydd yn y llawlyfr gwaith.

## Democratiaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol

Cynigir diffiniad o'r termau hyn gan dynnu sylw hefyd at y cyswllt rhwng y syniad o ddemocratiaeth uniongyrchol gyda Refferenda a drafodir yn Adnodd 3. Wrth ystyried democratiaeth anuniongyrchol, dylid nodi fod llawer o'r llenyddiaeth yn tueddu i ddefnyddio democratiaeth gynrychioliadol (*representative democracy*). Gall fod llawer o'r deunydd ar ddemocratiaeth gynrychioliadol yn ddefnyddiol i addysgu'r deunydd a drafodir yn yr uned hon, gan gynnwys o ran yr heriau sy'n wynebu democratiaeth gynrychioliadol yn y Gorllewin. Yn ogystal, mae'r drafodaeth yn tynnu sylw at y modd mae syniadau o ddemocratiaeth uniongyrchol yn gysylltiedig â'r syniad o ddemocratiaeth gyfranogol (*participatory democracy*). Byddai modd ymhelaethu ar y diffiniadau a gynigir drwy drafod mewn mwy o fanylder brif nodweddion democratiaeth uniongyrchol a democratiaeth anuniongyrchol.

### Plwraliaeth ac elitiaeth

Unwaith eto, dyma ddau derm lle ceir gwahanol bwysleisiau o ran sut i'w diffinio. Amlinellir rhai prif nodweddion. Yn ymarferol, wrth drafod gwleidyddiaeth ar lefel y DU y trafodir y syniadau hyn.

### Pwy sy'n pleidleisio?

Wrth gydnabod taw dim ond un o nifer o ffyrdd posibl o gyfranogi yw pleidleisio, mae'r wybodaeth graidd yn cyfiawnhau canolbwyntio ar y drafodaeth yn ymwneud gyda phleidleisio. O'r herwydd, trafodir y termau allweddol y cyfeirir atynt yn y fanyleb: y nifer sy'n pleidleisio, apathi, ymatal a dilysrwydd. Amlygir y drafodaeth ynghylch pam fod y ganran bleidleisio mor arwyddocaol wrth asesu democratiaeth a rhai o'r prif ffyrdd o egluro tueddiadau o ran y dirywiad yn y ganran bleidleisio ac ymatal rhag pleidleisio a'r goblygiadau o ran dilysrwydd system wleidyddol ddemocrataidd.

Wrth drafod mewn mwy o fanylder y ffactorau sy'n dylanwadu ar pam fod rhai grwpiau yn cyfranogi fwy nag eraill tynnir ar waith Pippa Norris sy'n amlwg yn y maes a'i chyfraniad yn seiliedig ar astudio'r data yn rhyngwladol. Tra taw canolbwyntio ar gyfranogi drwy bleidleisio mae'r astudiaeth, mae'n tynnu sylw hefyd at y modd mae'r un ffactorau yn bwysig i ddeall tueddiadau ehangach o ran cyfranogi yn wleidyddol. Cyflwynir y modd mae hi'n gwahaniaethu rhwng effeithiau strwythurol, effeithiau diwylliannol ac effeithiau asiant. Mae ffactorau megis oedran, rhywedd a statws economaidd-gymdeithasol yn cael eu cwmpasu o dan 'effeithiau strwythurol'. Efallai bod y fframwaith a gynigir gan Pippa Norris ychydig yn heriol a gall yr athro bwyso a mesur a ellir defnyddio'r deunydd hyn gyda'r holl ddosbarth neu ynteu i ymestyn rhai o'r disgyblion.

Cynigir y fframwaith i esbonio pam mae rhai pobl/grwpiau mewn cymdeithas yn cyfranogi mwy nag eraill. Cyflwynir hefyd y prif ddadleuon ynghylch effeithiau ymatal pleidlais ar ddilysrwydd y llywodraeth a'r system wleidyddol yn ehangach. Dylid nodi na roddir sylw penodol yn y drafodaeth i oblygiadau ethnigrwydd ar gyfranogi.

Yn olaf, trafodir y mater penodol o ddilysrwydd yn y cyd-destun Cymreig, gan fod hwn yn gwestiwn allweddol o ystyried y ganran bleidleisio yn y refferendwm yn 1997 ac mewn etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol. Trafodir rhai o'r prif ganfyddiadau ymchwil ar y mater o gefnogaeth gyhoeddus i'r Cynulliad. Nid oes ymarfer penodol wedi ei gysylltu gyda hyn yn y llawlyfr gwaith. Os am drafod hyn ymhellach gyda'r disgyblion, gellid defnyddio ffynonellau fel data agweddau cyhoeddus tuag at ddatganoli i Gymru, data ar ymddiriedaeth mewn gwahanol sefydliadau gwleidyddol ac asesiadau o berfformiad y Cynulliad. Mae'r rhain i'w gweld mewn gwahanol arolygon, yn enwedig y rheiny sy'n cael eu harwain yn academaidd gan yr Athro Roger Scully. Gweler ei flog: https://blogs.cardiff.ac.uk/electionsinwales/ ac yn fwy diweddar: https://www.rogerscully.com/blog/.

Mae llawer o'r prif ddata tan 2011 hefyd i'w gweld fel rhan o'r papur ymchwil Scully a Wyn Jones (2015) y cyfeirir ato yn y Wybodaeth Graidd (tablau ar ddiwedd y papur, t. 25 ymlaen).

## Ymarferion yn y llawlyfr gwaith

Mae'r ymarferion yn cynnig ffyrdd i'r disgyblion ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r pynciau hyn ac i ymwneud gyda data meintiol sy'n amlinellu'r tueddiadau mewn pleidleisio. Mae cwestiwn 1 a 2 yn canolbwyntio ar ddifiniadau.

Mae cwestiwn 3 yn rhoi'r cyfle i ddeall tueddiadau mewn pleidleisio o ran grwpiau oedran mewn Etholiadau Cyffredinol. Darperir yr holl ddata sy'n amcangyfrif y ganran bleidleisio yn y cyfnod 1964-2017 er mwyn i'r disgyblion gael y darlun llawnaf o'r tueddiadau. Mae'r data yn dangos y duedd gyffredinol o ran gostyngiad niferoedd pleidleisio rhwng 1964 a 2001 a pheth cynydd yn y ganran bleidleisio mewn etholiadau cyffredinol o 2005 ymlaen. Gwelir hefyd y gwrthgyferbyniad rhwng lefelau niferoedd pleidleisio cyson uchel ymysg y grŵp oedran 65+ (yn para heb fynd o dan 70%), o'i gymharu â'r cwymp sylweddol yn y ganran bleidleisio ymysg pobl 18-24 a hefyd 25-34 oed. Dyma sydd wrth wraidd y pryder ynghylch effaith cenedlaeth ar bleidleisio. Gellir trafod ymhellach pam y gwelwyd twf ymysg y grwpiau oedran hyn yn 2017.

Mae cwestiwn 4 yn cynnig enghraifft er mwyn amlygu'r gwahaniaethau yn y niferoedd pleidleisio mewn etholaethau gwahanol yn yr un etholiad. Wrth gwrs, mae hwn yn fater llai allweddol na'r gwahaniaethau rhwng grwpiau oedran ond gall gynorthwyo hefyd i ddeall rhai o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y ganran bleidleisio. Bydd y ffactorau sy'n dylanwadu yn amrywio o achos i achos ac o etholiad i etholiad ac ymgais sydd yma i alluogi gymryd cipolwg fanylach. Dylai'r data alluogi'r disgyblion i weld gwahaniaethau o fewn un etholiad rhwng y tri chanran pleidleisio: y cyfartaledd canran pleidleisio ar draws Cymru a'r gwrthgyferbyniad rhwng y canlyniad isaf ac uchaf. Mae'r canlyniadau hyn hefyd yn awgrymu'r modd mae cystadleuaeth agos rhwng pleidiau yn gallu annog niferoedd uwch i bleidleisio ac etholaeth ble bod yn sylweddol llai o gystadleuaeth rhwng y pleidiau yn debyg o arwain at niferoedd pleidleisio is.

Mae'r ffocws yn parhau ar Gymru yn ymarferion 5 a 6, gyda'r ymarfer cyntaf yn cynnig cyfle i'r disgyblion ymgyfarwyddo gyda'r niferoedd pleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru ers 1999 a sylwi ar y gwahaniaeth yn y ganran bleidleisio mewn etholiadau i'r Cynulliad o'i gymharu gydag Etholiadau Cyffredinol. Gellir cysylltu nôl i'r drafodaeth ar ddilysrwydd y Cynulliad wrth drafod y gwrthgyferbyniad hwn.

Gan symud o drafod pwy sy'n pleidleisio ai peidio, mae ymarfer 6 yn cyflwyno data o ran tueddiadau pleidleisio yn Etholiad y Cynulliad 2016 a'r cyswllt gyda nodweddion cymdeithasol. Mae'r ymarfer hwn yn debygol o ymestyn sgiliau dadansoddi disgyblion, ond gallant elwa o weld dadansoddiad fel hyn o'r cyd-destun Cymreig. Eto, rhaid pwysleisio taw enghraifft yw hon ar sail un etholiad ac nid asesiad cyflawn o'r berthynas rhwng nodweddion cymdeithasol ac ymddygiad pleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru. Gellir edrych ar y data gwahanol gam wrth gam (oedran, addysg ayb). Wrth ddadansoddi'r data, dylai'r disgyblion sylwi ar y canlynol:

: Yn gyffredinol, nid yw categoriau cymdeithasol yn dangos llawer o ran y gwahaniaethau rhwng cefnogaeth i'r pleidiau gwahanol yng Nghymru yn etholiad 2016.

: Mae'r gwahaniaethau o ran oedran yn debyg i'r hyn fyddai'n cael ei ddisgwyl gyda'r Ceidwadwyr yn gwneud orau ymysg y grwp oedran 65+. Ymysg y grwp oedran yma oedd y gefnogaeth uchaf hefyd i UKIP (17% ymysg y grwp oedran 65+ a 55-64).

: Nid oes gwahaniaethau sylweddol o ran rhywedd, er bod UKIP yn perfformio'n well ymysg dynion na menywod.

: Mae peth gwahaniaeth o ran addysg gyda'r gefnogaeth i UKIP yn is ymysg y rhai gyda'r lefelau uchaf o addysg. Ymysg y rhai gyda'r lefelau uchaf o addysg mae'r gefnogaeth i'r Democratiaid Rhyddfrydol a Plaid Cymru ychydig yn uwch.

: Nid oes perthynas arwyddocaol rhwng statws cymdeithasol a phleidlais, gyda chefnogaeth Llafur a'r Ceidwadwyr ond rhywfaint yn uwch ymysg y grwp AB. Gellir gweld taw UKIP yw'r unig blaid berfformiodd yn well ymysg pleidleiswyr C2 a DE na rhai AB a C1.

: Mae'r berthynas rhwng nodweddion cymdeithasol yn gryfach wrth ystyried gallu ieithyddol a phatrwm tebyg ond yn llai cryf o ran man geni.

Mae cwestiwn 7 yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth drwy archwilio ffynonellau ynghylch pobl ifanc a phleidleisio yng Nghymru wrth edrych ar adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi yn Gymraeg. Mae'r ail adroddiad yn tynnu ar dystiolaeth ryngwladol ac ar safbwyntiau yng Nghymru o ran lleihau'r oedran pleidleisio isaf.

Mae nifer o ffynonellau eraill ellid eu defnyddio i edrych ar y mater hwn o ran pobl ifanc a phleidleisio yn y DU yn ehangach, er enghraifft Adroddiad yr Youth Citizenship Commission yn 2009. Dylid nodi hefyd bod y Gymdeithas Hansard yn cynhyrchu awdit blynyddol o ymwneud gwleidyddol a gall hyn fod yn adnodd defnyddiol o ran cyfranogi ymysg grwpiau cymdeithasol eraill, e.e. lleiafrifoedd ethnig.

Mae'r cwestiynau olaf yn cynnig enghreifftiau o'r math o gwestiynau mwy estynedig i'w cynnig i ddisgyblion yn ymwneud gyda cyfranogiad.

## ARGYMHELLION DARLLEN PELLACH

(gweler y math o ffynonellau yn y llyfryddiaeth yn y Wybodaeth Graidd a'r Llawlyfr Gwaith)

### Adnoddau yn Gymraeg

Lydia Jones a Gwilym Evans (2013). *Llyfr UG Llywodraeth a Gwleidyddiaeth* (Aberystwyth: @ebol) – Pennod 1, Cyfranogi mewn Gwleidyddiaeth

### Adnoddau yn Saesneg

Hansard Society – *Audit of Political Engagement* blynyddol

https://www.hansardsociety.org.uk/projects/research/audit-of-political-engagement

Blog – Scully, R. (2018) Would Wales Really Reject Devolution?

https://www.rogerscully.com/blog/rogerscullyawancom/wouldwalesrejectdevolution

Blog yn trafod y data o ran gwrthwynebiad i datganoli yng Nghymru.

Tŷ'r Cyffredin (2014). *Voter engagement in the UK*, House of Commons Political and Constitutional Reform Committee, Fourth Report of Session 2014-15

https://publications.parliament.uk/pa/cm201415/cmselect/cmpolcon/232/232.pdf

Youth Citizenship Commission (2009). *Making the connection: Building youth citizenship in the UK*

https://www.liverpool.ac.uk/media/livacuk/politics/documents/YCC_Final_Report.pdf